

Crynodeb o Gofnodion y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth (AAP)

Cyfarfod 3 – 24 Hydref 2016

Llywodraeth Cymru , Spa Road East, Llandrindod

Yn bresennol

Lionel Walford – Cadeirydd

Peter Rees – Aelod Annibynnol

Darren Williams – Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)

John Davies – Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)

Daryl Williams – UNITE

Ivan Monckton – UNITE

Helen Snow – Geldards

Kevin Austin – Llywodraeth Cymru

Paula Whitfield – Llywodraeth Cymru

Medwyn Roberts – Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau

Steve Hughson – Aelod Annibynnol

Eitem 1 – Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan nodi bod un ymddiheuriad wedi dod i law.

Eitem 2 – Gwrthdaro buddiannau

Nid oedd unrhyw achosion newydd o wrthdaro buddiannau ers y cyfarfod diwethaf.

Eitem 3 – Cofnodion cyfarfodydd

Trafodwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Eitem 4 – Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Dosbarthodd y Cadeirydd yr atebion a oedd wedi dod i law i aelodau'r Panel.

Roedd ymateb rhif 1 yn awgrymu mai dim ond gweithredu yn unol â'r gyfraith ar gyflogaeth y dylai'r Panel ei wneud ac mai dim ond dibynnu ar ofynion cyfreithiol yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol y dylai'r Gorchmynion ei wneud ar gyfer pob gweithiwr. Roedd y berthynas rhwng Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol wedi'i thrafod yn fanwl yn y cyfarfod blaenorol lle'r oedd y Panel wedi penderfynu peidio â dibynnu arnyn nhw yn unig. Ystyriodd y Panel yr ymateb a chytunodd i gadw at y penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod blaenorol.

Roedd ymateb rhif 2 yn codi nifer o gwestiynau.

Cyfraddau amser llawn a rhan-amser. Cytunwyd bod gofyn i'r canllawiau fod yn glir ar y mater hwn.

Gweithwyr hyblyg. Roedd y Panel wedi cytuno i ddiddymu'r categori gweithiwr hyblyg. Byddai gweithwyr hyblyg a oedd yn defnyddio'r ddarpariaeth hon eisoes yn parhau i weithio yn unol â'r telerau yr oeddent wedi cytuno arnynt.

Codwyd mater gweithwyr sy'n ennill mwy ar hyn o bryd nag a nodir yn y Gorchymyn ar gyfer eu Gradd. Eglurwyd bod y gorchymyn yn gosod **isafswm** cyfraddau. Awgrymwyd y gallai'r gyfradd a fyddai'n cynnwys y codiad i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW+1) gael ei mynegi'n gliriach ac y dylid mynd i'r afael â'r mater hwnnw yn y dyfodol. Roedd y Panel am weld cynnydd ac o'r farn na ddylai unrhyw un weld yr isafswm yr oedd ganddo'r hawl iddo yn gostwng am fod cyfradd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn cael ei chyflwyno.

Gofynnwyd am esboniad o dâl salwch o ran a fyddai'n cynnwys **taliadau goramser** gwarantedig a heb eu gwarantu. Roedd y Panel yn cytuno y dylid cynnwys y cyfraddau wrth gyfrifo tâl gwyliau os yw'r cyfraddau hynny'n cael eu talu'n gyson.

Trafodwyd hefyd estyn y cyfnod cyfeirio ar gyfer cyfrifo **croniadau tâl gwyliau** o 12 wythnos i gyfnod hirach, blwyddyn o bosibl. Bernid ei bod yn bosibl bod camddealltwriaeth ynghylch sut y mae'r cyfnod cyfeirio o 12 wythnos yn gweithio. Trafododd y Panel yr angen i gyfrif ar ddiwedd y flwyddyn gwyliau blynyddol er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud a chronni gormod/peidio â chronni digon. Darparwyd nodyn cyngor atodol a oedd yn mynd i'r afael â'r pryderon yn uniongyrchol.

Lwfans ar alwad. Gofynnwyd pam yr oedd 'taliad untro' wedi'i gyflwyno yn lle cyfradd yr awr. Dywedwyd bod hynny'n seiliedig ar arferion mewn diwydiannau eraill, sef taliad untro am *fod ar gael*, ynghyd â thaliad yr awr am yr amser a weithiwyd mewn gwirionedd.

Ar ôl ystyried yr ymatebion yn ofalus penderfynodd y Panel y dylai'r cynigion gwreiddiol gael eu defnyddio fel sail i'r Gorchymyn draft a fyddai'n cael ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet.

Eitem 5 – Yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Panel y byddai cyfarfod cyntaf yr Is-bwyllgor yn cael ei gynnal yn Llandrindod ar 11 Tachwedd. Gofynnodd am sylwadau ar yr agenda ddrafft a gafodd ei dosbarthu cyn y cyfarfod. Dywedodd y Cadeirydd y byddai aelodau'r Is-bwyllgor yn cael cais yng nghyfarfod cyntaf yr Is-bwyllgor i gytuno ar sut y byddent yn gweithio. Dywedodd hefyd y byddent yn cael papur am Cyswllt Ffermio, a fyddai'n manylu ar ddiben, profiad a chanlyniadau Cyswllt Ffermio, ac y byddent hefyd yn cael papur am faterion yn ymwneud â Gwybodaeth am y Farchnad Lafur. Yr ail fyddai asesiad annibynnol o Addysg yng Nghymru. Cytunwyd y byddai awdur yr ail bapur yn cael ei wahodd i un o gyfarfodydd y Panel /

Is-bwyllgor er mwyn ateb unrhyw gwestiynau a fyddai'n codi.
Cyngorwyd y dylid dosbarthu'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwnnw cyn gynted ag y bo modd er mwyn rhoi amser i bobl baratoi.

Eitem 6 – Treuliau a Chyfathrebu

Dywedodd y Cadeirydd fod papur ar ad-dalu ffioedd a threuliau wedi'i ddsbarthu, ynghyd â chynllun cyfathrebu drafft, a gofynnodd a oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau.

Eitem 7 – Gwefan y Panel

Dywedodd Rheolwr y Panel fod gwaith wedi'i wneud i sefydlu gwefan ar gyfer y Panel. Byddai'n rhoi llwyfan i waith y Panel. Byddai'n weithredol yn gynnar yn 2017.

Eitem 7 – Unrhyw Fater Arall

Trafododd y Panel ddyddiadau ac amserau posibl ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Byddid yn cysylltu â phawb yn y man.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol a chaewyd y cyfarfod